Cyllid &
Thollau EM

Ebrill 2021

Annwyl [Customer]

Mae’r DU wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, ac mae hyn yn golygu bod rheolau tollau a threthi newydd ar waith pan fyddwch yn prynu o Ewrop neu’n gwerthu iddi, neu os byddwch yn symud offer i mewn i’r DU neu oddi yno ar gyfer busnes.

Nawr, mae angen i chi wneud datganiadau tollau ar nwyddau rydych yn eu mewnforio i’r DU ac yn eu hallforio oddi yno. Os ydych yn symud nwyddau rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, mae angen i chi ddeall beth mae Protocol Gogledd Iwerddon yn ei olygu i chi hefyd.

Mae cwsmeriaid rydym wedi siarad â nhw wedi dweud wrthym fod angen rhagor o help arnynt, a gobeithiwn y bydd yr wybodaeth ganlynol o ddefnydd i chi.

## Gohirio’ch datganiadau tollau

Mae’r llywodraeth wedi cyhoeddi’n ddiweddar, os ydych yn mewnforio nwyddau o’r UE i Brydain Fawr ac nad ydynt ar y rhestr o nwyddau dan reolaeth, y gallwch ohirio gwneud datganiadau llawn i CThEM am hyd at 175 diwrnod ar ôl i chi fewnforio eich nwyddau, hyd at 1 Ionawr 2022. Dewisodd wneud hyn oherwydd yr heriau digynsail y mae busnesau wedi’u hwynebu yn ystod y pandemig.

Os ydych eisoes yn gwneud datganiadau llawn, does dim rhaid i chi newid dim byd. Ond i’r rheiny sy’n dal i ddod i arfer â’r newidiadau, bydd rhagor o amser i baratoi. Os ydych wedi dewis gohirio’ch datganiadau, gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw cofnod o’ch holl fewnforion, er mwyn i chi fod yn barod i gwblhau’ch datganiadau atodol mewn pryd.

Cyn i’ch nwyddau gael eu mewnforio, gwnewch yn siŵr eich bod yn cytuno gyda’r person sy’n gyfrifol am symud eich nwyddau a fydd y nwyddau’n cael eu datgan gan ddefnyddio datganiadau gohiriedig neu gan ddefnyddio prosesau tollau sy’n bodoli eisoes wrth y man cyrraedd.

Nid yw’r cyhoeddiad yn ymestyn y cyfnod rhwng mewnforio’ch nwyddau a gwneud eich cofnod yng nghofnodion y datganwr, na’r cyfnod pan fydd yn rhaid i chi wneud eich datganiad atodol. Bydd yn dal i fod yn rhaid i chi gyflwyno’ch datganiadau atodol gohiriedig cyn pen 175 diwrnod ar ôl i’r nwyddau gyrraedd Prydain Fawr. Er enghraifft, os gwnaethoch fewnforio nwyddau ar 5 Ionawr gan ddefnyddio’r opsiwn datganiad gohiriedig, bydd yn dal i fod yn rhaid i chi fod yn barod i wneud eich datganiad atodol erbyn 30 Mehefin.

Am ragor o wybodaeth, gan gynnwys a yw’ch nwyddau’n cael eu hystyried yn rhai sydd ‘o dan reolaeth’, y cofnodion mewnol y mae angen i chi eu cadw er mwyn gohirio’ch datganiadau mewnforio, a sut i wneud datganiadau atodol, ewch i **www.gov.uk/hmrc/delay-import-declarations**

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am nwyddau o dan reolaeth yn **www.gov.uk/guidance/list-of-goods-imported-into-great-britain-from-the-eu-that-are-controlled**

## Cronfa Gymorth Brexit i Fentrau Bach a Chanolig

Gall mentrau bach a chanolig (MBaCh) gael hyd at £2,000 drwy'r Gronfa Gymorth Brexit newydd i Fentrau Bach a Chanolig, a hynny i dalu am gymorth ymarferol, gan gynnwys hyfforddiant neu gyngor proffesiynol i ddod i arfer â'r holl dollau, rheolau o ran tarddiad a rheolau TAW newydd sydd ar waith wrth fasnachu â'r UE. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn
**www.gov.uk/guidance/grants-to-help-small-and-medium-sized-businesses-new-to-importing-or-exporting**

## Cyfryngwyr tollau

Gall datganiadau tollau fod yn gymhleth, felly mae llawer o fusnesau'n penderfynu defnyddio cyfryngwr tollau i ddelio â datganiadau mewnforio ac allforio ar eu rhan. Mae mathau o gyfryngwyr yn cynnwys:

- cwmnïau cludo parseli'n gyflym a'r Post Brenhinol – sy'n arbennig o ddefnyddiol os ydych yn fusnes bach sydd wedi arfer anfon nwyddau drwy'r post neu gyda chwmnïau cludo parseli
- broceriaid tollau ac asiantau a allai fod yn well ar gyfer busnesau sy'n masnachu'n fwy rheolaidd
- trefnwyr anfon nwyddau, a all roi cyngor mwy arbenigol

Mae rhestr o gyfryngwyr tollau a all eich helpu i'w gweld yn
**www.gov.uk/guidance/list-of-customs-agents-and-fast-parcel-operators**

Bydd yn dal i fod yn rhaid i chi roi gwybodaeth i gyfryngwyr am eich busnes a'r nwyddau rydych yn eu masnachu. Er mwyn eich helpu i ddeall y camau y mae angen i chi eu cymryd, gallwch fynychu ein gweminar fyw 'Cyfrifoldebau masnachwr wrth ddefnyddio cyfryngwr' neu ddarllen ein 'Canllawiau ar gyfer mewnforio ac allforio rhwng Prydain Fawr a'r UE'. Mae rhagor o wybodaeth am y rhain ar y dudalen arweiniad amgaeedig.

## Sut i hawlio'r cyfraddau tollau sero y cytunwyd arnynt rhwng y DU a'r UE

Er mwyn diogelu busnesau'r DU a'r UE, mae cytundeb y DU â'r UE, y Cytundeb Masnachu a Chydweithredu, yn cynnwys cyfraddau tollau ffafriol sy'n berthnasol i nwyddau a gynhyrchir yn y DU neu'r UE yn unig.

Mae hyn yn golygu nad oes rhaid i chi dalu Toll Dramor os ydych:

- yn mewnforio nwyddau i'r DU sy'n tarddu o'r UE
- yn allforio nwyddau i'r UE sy'n tarddu o'r DU
- yn rhyddhau'r nwyddau i gylchrediad rhydd

Ystyr tarddiad nwyddau yw'r wlad lle y maent wedi'u cynhyrchu neu eu gweithgynhyrchu, yn hytrach nag o ble y maent wedi cael eu cludo neu eu prynu.

Gwneir rhai nwyddau o ddeunyddiau, rhannau, neu gynhwysion sy'n dod o wledydd eraill ac efallai na fyddant yn bodloni'r rheolau o ran tarddiad sy'n benodol i'r nwyddau rydych yn eu mewnforio neu'n eu hallforio, felly dylech wirio'r rheolau unigol ar gyfer eich nwyddau. Os nad yw'ch nwyddau'n bodloni'r rheolau, bydd yn rhaid i chi dalu Toll Dramor.

I hawlio'r cyfraddau tollau sero pan fyddwch yn symud y nwyddau hyn i mewn i'r DU o'r UE neu i mewn i'r UE o'r DU, mae'n rhaid i chi ddilyn y 4 cam hyn:

- **Cam 1:** Dynodwch eich nwyddau drwy ddod o hyd i'r cod nwyddau cywir
- **Cam 2:** Gwiriwch a yw'ch nwyddau'n bodloni'r rheolau o ran tarddiad
- **Cam 3:** Rhowch dystiolaeth bod eich nwyddau'n bodloni'r rheolau o ran tarddiad
- **Cam 4:** Nodwch yr wybodaeth hon yn eich datganiad mewnforio neu allforio

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y rheolau o ran tarddiad rhwng y DU a'r UE yn
**www.gov.uk/government/publications/rules-of-origin-for-goods-moving-between-the-uk-and-eu**

Os ydych yn mewnforio, gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn
**www.gov.uk/guidance/claiming-preferential-rates-of-duty-between-the-uk-and-eu**

Os ydych yn allforio, mae twlsyn ar-lein y gallwch ei ddefnyddio i wirio'r codau nwyddau, y cyfraddau tollau a'r rheolau o ran tarddiad eich nwyddau. I'w ddefnyddio, ewch i **www.gov.uk/check-duties-customs-exporting**

Rydym yn gwybod pa mor heriol yw dod i arfer â chymaint o newidiadau, ac rydym yn gwerthfawrogi faint rydych wedi'i wneud eisoes.

Rydym yma i'ch helpu i addasu i'r newidiadau, ac mae'r dudalen atodol yn rhoi canllaw ynghylch ble y gallwch gael cymorth gennym os bydd ei angen arnoch, gan gynnwys ein Llinell Gymorth Tollau a Masnach Ryngwladol a diweddariadau wythnosol i fasnachwyr.

Yn gywir

Katherine Green a Sophie Dean

Cyfarwyddwyr Cyffredinol, Ffiniau a Masnachu, CThEM